# Asesiad Effaith Sengl

Cyngor Caerdydd

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

## 1. Manylion y Cynnig

| **Beth yw'r cynnig?** | |
|---|---|
| Teitl: | **CYNIGION AD-DREFNU YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)** |

| **Ai cynnig newydd yw hwn neu a ydych chi'n diwygio polisi, strategaeth, prosiect, gweithdrefn neu wasanaeth sy'n bod eisoes?** | |
|---|---|
| Newydd | ☒ |
| Yn bod eisoes | ☐ |

| **Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth:** |
|---|
| Addysg |

| **Pwy sy'n datblygu'r cynnig?** | |
|---|---|
| Enw: | Richard Portas |
| Teitl y Swydd: | Cyfarwyddwr y Rhaglen - CTY |

| **Swyddog Arweiniol Cyfrifol (Cyfarwyddwr neu Gyfarwyddwr Cynorthwyol):** |
|---|
| Melanie Godfrey<br>Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes |

| **Portffolio'r Cabinet:** |
|---|
| Addysg (Y Cynghorydd Sarah Merry) |

Caerdydd Ddwyieithog Bilingual Cardiff

Caerdydd Un Blaned

Caerdydd Sy'n Dda i Blant

*Gellir cryfhau'r Asesiad Effaith Sengl (AES) wrth i amser fynd yn ei flaen, gan helpu i lunio'r cynnig. Bydd rheoli fersiwn yn cynnig llwybr archwilio defnyddiol o sut mae'r AES wedi datblygu. Dylid cadw fersiynau drafft o'r asesiad ar gyfer cyflawnrwydd, ond dim ond y fersiwn derfynol fydd ar gael i'r cyhoedd. Gellir darparu fersiynau drafft i reoleiddwyr os yw'n briodol.*

| Fersiwn | Awdur | Teitl y Swydd | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| 1 | Rosalie Phillips | Swyddog Prosiect - Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion | 12/06/2023 |
| 2 | Jo Phillips | Swyddog Prosiect - Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion | 01/03/2024 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 2. Trosolwg o'r Cynnig

| **Pa gamau y mae'r Cyngor yn eu hystyried a pham?**<br>*Rhowch amlinelliad o'r cynnig.* |
|---|
| Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad o 20 Tachwedd 2023 i 19 Ionawr 2024 ac roedd yn gyfle i ddysgu am y newidiadau arfaethedig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd mewn canolfan adnoddau arbenigol/ysgol arbenigol i ddysgwyr sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol, cynigiwyd:<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol.<br>• Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer dysgwyr ag Anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. |

Yn dilyn pryderon a godwyd gan Gorff Llywodraethu Lakeside yn ystod yr ymgynghoriad, cydnabyddir nad yw derbyn mwy na 12 o ddysgwyr i'r dosbarth ar hyn o bryd yn briodol i gydnabod oedran ac anghenion y plant a lefel y cymorth y bydd ei angen. Mae'r ysgol yn cynnal canolfan dau ddosbarth o ddysgwyr Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys dysgwyr a allai fod yn gymwys fel arall i gael lleoliad yn Ysgol Cynefin (a elwid gynt yn Ysgol Arbennig The Court).

Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â chynlluniau i ehangu Ysgol Cynefin a fydd yn cefnogi rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd pan fydd yr ehangu wedi'i gwblhau. Rhagwelir y bydd yr ehangu hwn yn lleihau'r pwysau ar Ddosbarthiadau Lles Caerdydd a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol, gan alluogi Ysgol Gynradd Lakeside i dderbyn 8 dysgwr fesul dosbarth yn ôl ei bwriad, yn gyson â'r model sefydledig ar draws y ddinas.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lakeside i sicrhau bod y ddarpariaeth o safon uchel yn cael ei chynnal, gan gynnwys ystyried anghenion dysgwyr, cyllid, staffio ac adnoddau.

Yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch, cydnabyddir bod nifer o faterion wedi'u codi mewn perthynas â'r sefydliad arfaethedig, gan gynnwys pryderon ynghylch sefydlu dosbarth sengl i ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion sydd wedi codi a bydd yn parhau i weithio gyda'r ysgol i ddatrys a mynd i'r afael ag unrhyw faterion parhaus i gefnogi'r dysgwyr sydd eisoes wedi cofrestru yn yr ysgol ac sydd wedi'u lleoli yn ei Dosbarth Lles.

Bydd y pwyntiau a godwyd gan y Corff Llywodraethu yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu harfarnu ymhellach cyn cyflwyno cynigion diwygiedig ar gyfer darparu lleoedd ysgol gynradd iechyd a lles emosiynol cyfrwng Cymraeg.

Er mwyn ateb y galw am leoedd canolfannau adnoddau arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth, cynigiwyd:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth/Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth/Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth/Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

**Beth yw'r costau a/neu'r arbedion?**
*Beth fydd cost y cynnig a sut bydd yn cael ei ariannu?*
*Sut gellid lleihau costau drwy gyfranogi a chydweithio, ar draws Cyngor Caerdydd a/neu gyda rhanddeiliaid allanol?*
*Oes arbedion a sut bydd y rhain yn cael eu gwireddu?*

| |
|---|
| Mae manylion y goblygiadau ariannol sy'n berthnasol i'r newidiadau arfaethedig fel y nodir yn yr adroddiad |

## 3. Asesiadau o Effaith

**Pa asesiadau o effaith y mae angen i chi eu cwblhau i gefnogi eich cynnig?**

Mae'r Offeryn Sgrinio Asesu Effaith yn rhoi cyngor sydd wedi'i deilwra i'ch polisi, eich strategaeth neu'ch prosiect arfaethedig ynghylch pa asesiadau effaith y gallai fod eu hangen a phwy i gysylltu â nhw i ddysgu mwy.

Mae'r offeryn sgrinio yn ffurflen ar-lein gyda chwestiynau amlddewis yn bennaf a dylai gymryd llai na 10 munud i'w gwblhau.

Ar ôl cyflwyno'r atebion, bydd e-bost awtomataidd yn cael ei anfon atoch gyda'r camau nesaf a argymhellir a manylion ynghylch â phwy i gysylltu am gyngor arbenigol.

**Rhowch Ie neu Na wrth ymyl pob un o'r asesiadau o effaith a restrir isod i nodi pa rai sy'n cael eu cynnal.**

| **Asesiad o Effaith** | **Tudalen** | **I'w gwblhau: Ie/Na** |
|---|---|---|
| A. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 6 | Ie |
| B. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant | 21 | Ie |
| C. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg | 26 | Ie |
| D. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | 32 | Na |
| E. Asesiad Amgylcheddol Strategol | 33 | Na |
| F. Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data | 34 | Na |
| G. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | 35 | Na |

Am ragor o wybodaeth am yr holl asesiadau o effaith uchod gan gynnwys pwy i gysylltu ag ef/hi am gyngor, ewch i'r Porth Polisi.

# A: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gellir cael canllawiau ar gyfer cwblhau'r asesiad hwn yma. Cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb am unrhyw gymorth pellach o ran cwblhau'r asesiad hwn - TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

**Effaith ar y Nodweddion Gwarchodedig**

**Oedran**
A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl ifanc/pobl hŷn?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Hyd at 18 oed | x | | |
| 18 - 65 oed | x | | |
| Dros 65 oed | | x | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol.<br><br>Nod y newidiadau arfaethedig yw gwella'r gyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw o ran lleoedd mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol ac anghenion dysgu cymhleth.<br><br>Byddai'r opsiynau a nodwyd yn rhoi cynnydd graddol yn nifer y lleoedd arbenigol a byddent yn:<br><br>• cefnogi cwricwlwm holistig, galwedigaethol a therapiwtig, gan gynnwys sgiliau bywyd.<br>• lleihau'r ddibyniaeth ar leoedd ysgolion annibynnol, ac o bosibl lleoliadau y tu allan i'r sir.<br>• sicrhau capasiti i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Caerdydd, yn unol â'r strategaeth 'Yn Nes at y Cartref'.<br>• cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr oed cynradd fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd.<br>• datblygu ymhellach y cymorth i ddisgyblion gynnal cysylltiadau ag addysg brif ffrwd a dychwelyd iddi lle bo hynny'n bosibl.<br>• creu cysylltiadau cryf rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i gefnogi lleoliadau deuol a phrofiad dysgu cyfoethocach.<br><br>Mae'r ddarpariaeth hon yn ddibynnol ar oedran ac felly nid yw ar gael i ddisgyblion y tu allan i'r ystod oedran hon, nac i oedolion, naill ai'n lleol neu yn y gymuned ehangach. |

| |
|---|
| Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbenigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Byddai'r cynigion yn gofyn am newidiadau yn strwythurau staffio'r ysgolion yn amodol ar y newidiadau arfaethedig.<br><br>Byddai cynigion i sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn gofyn bod Cyrff Llywodraethu perthnasol yn ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiadau. Byddai'r Cyrff Llywodraethu'n cael eu hannog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â Fframwaith Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion AD. Byddai Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Cyrff Llywodraethu am y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.<br><br>Byddai angen i unrhyw newidiadau i adeiladau/ystafelloedd ystyried ystod fanwl o wybodaeth e.e., dyluniad/hygyrchedd unrhyw adeiladau/ystafelloedd ysgol a chamau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau gwahaniaethol. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu lleoedd disgyblion i ddiwallu anghenion pob disgybl yng Nghaerdydd.<br><br>Mae'r galw am leoedd yn cael ei adolygu'n barhaus a chyflwynir newidiadau arfaethedig yn ôl yr angen.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer unrhyw staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion. |

**Anabledd**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl anabl?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Nam ar y Clyw | | **X** | |
| Nam Corfforol | | **X** | |
| Nam ar y Golwg | | **X** | |
| Anabledd Dysgu | **X** | | |
| Salwch neu Gyflwr Iechyd Hirdymor | | **X** | |
| Iechyd Meddwl | | **X** | |
| Camddefnyddio Sylweddau | | **X** | |
| Arall | | **X** | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol.<br><br>Nod y newidiadau arfaethedig yw gwella'r gyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw o ran lleoedd mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol ac anghenion dysgu cymhleth.<br><br>Byddai'r opsiynau a nodwyd yn rhoi cynnydd graddol yn nifer y lleoedd arbenigol a byddent yn:<br><br>• cefnogi cwricwlwm holistig, galwedigaethol a therapiwtig, gan gynnwys sgiliau bywyd.<br>• lleihau'r ddibyniaeth ar leoedd ysgolion annibynnol, ac o bosibl lleoliadau y tu allan i'r sir.<br>• sicrhau capasiti i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Caerdydd, yn unol â'r strategaeth 'Agosach i Adref'.<br>• cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr oed cynradd fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd.<br>• datblygu ymhellach y gefnogaeth i ddisgyblion gynnal cysylltiadau ag addysg brif ffrwd a dychwelyd iddi lle bo hynny'n bosibl.<br>• creu cysylltiadau cryf rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i gefnogi lleoliadau deuol a phrofiad dysgu cyfoethocach.<br><br>Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbennigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Byddai angen i unrhyw newidiadau i lety ystyried ystod fanwl o wybodaeth e.e., dyluniad/hygyrchedd unrhyw adeiladau/llety ysgol a chamau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau gwahaniaethol. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |

| |
|---|
| Mae’r Cyngor yn gweithio’n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu’n dda a bod yr arweinyddiaeth a’r llywodraethu’n gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy’n destun y cynigion.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Mae'n ofynnol bod gan ysgolion Gynllun Cydraddoldeb Strategol a byddent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon. |

**Ailbennu Rhywedd**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl drawsryweddol?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Pobl Drawsryweddol<br>(Mae pobl drawsryweddol yn bobl y mae ei hunaniaeth rhywedd yn wahanol i’r rhywedd a neilltuwyd iddynt adeg eu geni.) | | x | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau’r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu’n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i’r ddarpariaeth arbenigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i’r afael â’r effaith wahaniaethol?** |
| |

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar briodas a phartneriaeth sifil?

| | **Byd d** | **Na fydd** | **Dd/ B** |
|---|---|---|---|
| Priodas | | x | |
| Partneriaeth Sifil | | x | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbenigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar feichiogrwydd a mamolaeth?

| | **Byd d** | **Na fydd** | **Dd/ B** |
|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | x | |
| Mamolaeth | | x | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. |

| |
|---|
| Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbenigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

**Hil**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Gwyn | x | | |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig | x | | |
| Asiaidd / Asiaidd Prydeinig | x | | |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Prydeinig | x | | |
| Grwpiau Ethnig Eraill | x | | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol.<br><br>Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Byddai'r ddarpariaeth a gynigir yn hygyrch i bob grŵp ethnig a byddai angen sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbenigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

**Crefydd, Credoau, neu Ddiffyg Cred**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar bobl sydd â chrefyddau, credoau a diffyg cred wahanol?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|
| Bwdhaidd | | x | |
| Cristnogol | | x | |
| Hindŵaidd | | x | |
| Dyneiddiol | | x | |
| Iddewig | | x | |
| Mwslimaidd | | x | |
| Sikh | | x | |
| Arall | | x | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol.<br><br>Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. Byddai'r ddarpariaeth a gynigir yn hygyrch i bob grŵp ethnig a byddai angen sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbennigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor/Cyrff Llywodraethu ar gyfle cyfartal. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

**Rhyw**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar ddynion a/neu fenywod?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Dynion | | x | |
| Menywod | | x | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol.<br><br>Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbenigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y grwpiau canlynol?

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Deurywiol | | x | |
| Dynion Hoyw | | x | |
| Menywod Hoyw/Lesbiaid | | x | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Heterorywiol/Syth | | x | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o argymhellion yr adroddiad hwn.<br><br>Ni fydd unrhyw effaith wahaniaethol.<br><br>Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Byddai'r Cyngor yn rheoli derbyniadau i'r ddarpariaeth arbenigol yn unol â'r Cod ADY.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

**Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**
A ragwelir y bydd y newid yn lleihau neu'n cyfrannu at anghydraddoldeb deilliant, o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? (e.e. a fydd y newid yn cael effaith negyddol ar y rheini sydd ar incwm isel, neu'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd)

| | **Do** | **Nad do** | **Dd/ B** |
|---|---|---|---|
| Effaith economaidd-gymdeithasol | | x | |

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Mae polisi 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' y Cyngor yn nodi'r themâu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf gan ganolbwyntio'n gryf ar roi plant a phobl ifanc yn flaenllaw yn eu huchelgeisiau ar gyfer y ddinas. Yn ganolog i hyn yw'n cred gryf mai addysg dda yw'r llwybr mwyaf sicr allan o dlodi |

| |
|---|
| ac, yn ei dro, fod ffyniant hirdymor y ddinas yn dibynnu ar gymorth cadarn i'n plant a'n pobl ifanc wireddu eu potensial.<br><br>Mae addysg yn cael ei nodi'n gyson fel y brif flaenoriaeth i blant a phobl ifanc Caerdydd. Mae'n hawl gymdeithasol a diwylliannol allweddol sy'n chwarae rôl hanfodol mewn trechu tlodi ac anfantais.<br><br>Nod y newidiadau arfaethedig yw gwella'r gyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw o ran lleoedd mewn darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd a lles emosiynol ac anghenion dysgu cymhleth/cyflwr sbectrwm awtistiaeth.<br><br>Byddai'r opsiynau a nodwyd yn rhoi cynnydd graddol yn nifer y lleoedd arbenigol a byddent yn:<br><br>• cefnogi cwricwlwm holistig, galwedigaethol a therapiwtig, gan gynnwys sgiliau bywyd.<br>• lleihau'r ddibyniaeth ar leoedd ysgolion annibynnol, ac o bosibl lleoliadau y tu allan i'r sir.<br>• sicrhau capasiti i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Caerdydd, yn unol â'r strategaeth 'Yn Nes at y Cartref'.<br>• cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr oed cynradd fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd.<br>• datblygu ymhellach y cymorth i ddisgyblion gynnal cysylltiadau ag addysg brif ffrwd a dychwelyd iddi lle bo hynny'n bosibl.<br>• creu cysylltiadau cryf rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i gefnogi lleoliadau deuol a phrofiad dysgu cyfoethocach. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.<br><br>Byddai angen i unrhyw gynigion sy'n cael eu symud ymlaen ystyried yn llawn yr ymrwymiadau a nodir yn 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' a sut y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r rhain. |

**Y Gymraeg**

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar yr iaith Gymraeg?

| | **Bydd** | **Na fydd** | **Dd/B** |
|---|---|---|---|

| Y Gymraeg | x | | |
|---|---|---|---|

| **Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth.** |
|---|
| Mae nifer yr achosion o ADY yn y sector Cymraeg yn parhau i fod yn is nag ar gyfer ysgolion Caerdydd yn gyffredinol.<br><br>Byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd cynradd Cymraeg anghenion dysgu ychwanegol arbenigol.<br><br>Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae'r CSCA yn ymrwymo'r Cyngor i gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Mae'r cynigion cyfrwng Cymraeg yn ymateb yn uniongyrchol i ddeilliannau canlynol y CSCA:<br><br>• Deilliant 6 – Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018<br><br>Yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch, cydnabyddir bod nifer o faterion wedi'u codi mewn perthynas â'r sefydliad arfaethedig, gan gynnwys pryderon ynghylch sefydlu dosbarth sengl i ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion sydd wedi codi a bydd yn parhau i weithio gyda'r ysgol i ddatrys a mynd i'r afael ag unrhyw faterion parhaus i gefnogi'r dysgwyr sydd eisoes wedi cofrestru yn yr ysgol ac sydd wedi'u lleoli yn ei Dosbarth Lles.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid yn y Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.<br><br>Bydd y pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu gwerthuso ymhellach cyn cyflwyno cynigion diwygiedig ar gyfer darparu lleoedd iechyd a lles emosiynol cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd.<br><br>Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. |

| |
|---|
| Mae'r Cyngor yn monitro'r galw am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a phatrymau dewis mewn darpariaeth addysg Gymraeg ar oed cynradd ac uwchradd, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw. |
| **Pa gamau gweithredu y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â'r effaith wahaniaethol?** |
| |

**Ymgynghori ac Ymgysylltu**

Pa drefniadau a wnaed i ymgynghori/ymgysylltu â'r gwahanol grwpiau cydraddoldeb?

Roedd y broses ymgynghori ar gyfer yr holl gynigion yn cynnwys:

- cyhoeddi dogfennau ymgynghori dwyieithog a oedd yn nodi cefndir, rhesymeg a goblygiadau i rieni, staff a llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ar draws y ddinas, Aelodau etholedig, preswylwyr lleol a rhanddeiliaid eraill (ceir copi o'r dogfennau ymgynghori yn Atodiad 1);
- cyhoeddi dogfen gryno ddwyieithog a oedd yn nodi prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori. Roedd y rhain ar gael yn Arabeg, Pwyleg a Bengaleg (ceir copi o'r dogfennau cryno yn Atodiad 2);
- cyhoeddi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill ar gais;
- cyfarfodydd ymgynghori trwy Microsoft Teams/wyneb yn wyneb â llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ysgol Gynradd Coed Glas, Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Severn (ceir nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
- cyfarfodydd ymgynghori â staff, lle mae'r ysgol yn gofyn amdano. Gofynnwyd am gyfarfodydd â staff gan Ysgol Gynradd y Tyllgoed ac Ysgol Gynradd Coed Glas (ceir nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 4);
- cyfarfodydd ymgynghori trwy Microsoft Teams/wyneb yn wyneb â chynrychiolwyr disgyblion yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ysgol Gynradd Coed Glas, Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Severn. Ni chyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr disgyblion o Ysgol Gymraeg Pwll Coch (ceir nodiadau o'r cyfarfodydd hyn yn Atodiad 5);
- cynigiwyd cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams lle esboniwyd y cynigion ac atebwyd cwestiynau. Cynhaliwyd cyfarfodydd lle roedd presenoldeb wedi'i drefnu ymlaen llaw (ceir nodiadau o'r cyfarfod yn Atodiad 6);

- sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb a thrwy Microsoft Teams lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (ceir cofnodion o'r sesiynau a gynhaliwyd yn atodiad 7);
- cafodd llythyrau'n nodi manylion y cynigion a lle gellid dod o hyd i ragor o wybodaeth eu hanfon at breswylwyr a busnesau lleol yng nghyffiniau safleoedd yr ysgolion sy'n destun y newidiadau arfaethedig;
- ymgyrch gyfathrebu trwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- slip ymateb i'r ymgynghoriad, i'w ddychwelyd trwy'r post neu e-bost, ynghlwm wrth y dogfennau ymgynghori a'r dogfennau cryno;
- ffurflenni ymateb ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolADY Roedd hyn ar gael yn Arabeg, Pwyleg a Bengaleg.

I randdeiliaid nad oedd ganddynt fynediad i lwyfannau digidol, roedd cyfle ar gael i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn.

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yng nghyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor, mewn sesiynau galw heibio a galwadau ffôn, ac ar bapur neu'n electronig trwy'r sianeli priodol, wedi'u cofnodi.

Ceisiwyd barn rhanddeiliaid â diddordeb trwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o'r arolwg yn y ddogfen ymgynghori.

Cafodd Swyddog Hygyrchedd y Cyngor gyfle i roi sylwadau ar y newidiadau arfaethedig.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chynhwysol ac ystyriwyd y safbwyntiau a fynegwyd yn briodol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

**Crynodeb o Gamau Gweithredu (a restrir yn yr Adrannau uchod)**

| | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Oedran | Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu lleoedd disgyblion i fodloni anghenion pob disgybl yng Nghaerdydd.<br><br>Mae'r galw am leoedd yn cael ei adolygu'n barhaus a chyflwynir newidiadau arfaethedig yn ôl yr angen.<br><br>Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion. |

| | |
|---|---|
| | Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer unrhyw staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion. |
| Anabledd | Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.<br><br>Byddai gweithdrefn y Cyngor ar gyfer rheoli newidiadau staffio sy'n deillio o unrhyw gynigion yn y dyfodol yn cael ei defnyddio wrth weithredu unrhyw newidiadau. Byddai hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn, gan gynnwys defnyddio polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Mae'n ofynnol bod gan ysgolion Gynllun Cydraddoldeb Strategol a byddent yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon. |
| Ailbennu Rhywedd | |
| Priodas a Phartneriaeth Sifil | |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | |
| Hil | |
| Crefydd/Cred | |
| Rhyw | |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | |
| Effaith economaidd-gymdeithasol | Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf. Nid yw'r |

| | |
|---|---|
| | Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a phob un cyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn yr ysgolion sy'n destun y cynigion.<br><br>Byddai angen i unrhyw gynigion sy'n cael eu symud ymlaen ystyried yn llawn yr ymrwymiadau a nodir yn 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' a sut y byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cefnogi'r rhain. |
| Y Gymraeg | |
| Cyffredinol/Trosfwaol (yn berthnasol i'r holl grwpiau uchod) | |

**Y Camau Nesaf**

Dylid cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer camau gweithredu yr ydych yn bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn (a restrir yn y Crynodeb o Gamau Gweithredu) fel rhan o Gynllun Busnes eich Gwasanaeth i'w monitro'n rheolaidd.

Ar ôl cwblhau'r Asesiad hwn, sicrhewch fod y ffurflen yn cael ei chyflwyno i flwch post y Tîm Cydraddoldeb fel bod cofnod o'r holl asesiadau a gynhelir yn y Cyngor - TîmCydraddoldeb@caerdydd.gov.uk

# B: Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae'r canllawiau ar gyfer Llywodraeth Leol a baratowyd gan Unicef ar gael yma: Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant - Dinasoedd a Chymunedau sy'n Dda i Blant (unicef.org.uk)

Am ragor o wybodaeth neu gymorth i gwblhau'r Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant, cysylltwch â Thîm Caerdydd sy’n Dda i Blant CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk

**CAM 1: DIBEN/CWMPAS**

| **Beth yw’r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth?**<br>**Crynhowch/disgrifiwch ei nodau cyffredinol ac unrhyw nodau sy'n benodol i blant.** |
|---|
| Er mwyn ateb y galw am leoedd mewn canolfan adnoddau arbenigol/ysgol arbenigol i ddysgwyr sydd ag anghenion iechyd a lles emosiynol, cynigiwyd:<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol.<br>• Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn cymryd lle'r Dosbarth Lles presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer dysgwyr ag Anghenion iechyd a lles emosiynol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br><br>Yn dilyn pryderon a godwyd gan Gorff Llywodraethu Lakeside yn ystod yr ymgynghoriad, cydnabyddir nad yw derbyn mwy na 12 o ddysgwyr i'r dosbarth ar hyn o bryd yn briodol o gydnabod oedran ac anghenion y plant a lefel y cymorth y bydd ei angen. Mae'r ysgol yn cynnal canolfan dau ddosbarth o ddysgwyr Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys dysgwyr a allai fod yn gymwys i gael lleoliad yn Ysgol Cynefin (a elwid gynt yn Ysgol Arbennig The Court).<br><br>Mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â chynlluniau i ehangu Ysgol Cynefin a fydd yn cefnogi rhai o’r dysgwyr mwyaf agored i niwed yng Nghaerdydd pan fydd yr |

| |
|---|
| ehangu wedi'i gwblhau. Rhagwelir y bydd yr ehangu hwn yn lleihau'r pwysau ar Ddosbarthiadau Lles a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol Caerdydd, gan alluogi Ysgol Gynradd Lakeside i dderbyn 8 dysgwr fesul dosbarth yn ôl ei bwriad, yn gyson â'r model sefydledig ledled y ddinas.<br><br>Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda Phennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lakeside i sicrhau bod y ddarpariaeth o safon uchel yn cael ei chynnal, gan gynnwys ystyried anghenion dysgwyr, cyllid, staffio ac adnoddau.<br><br>Yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch, cydnabyddir bod nifer o faterion wedi'u codi mewn perthynas â'r sefydliad arfaethedig, gan gynnwys pryderon ynghylch sefydlu dosbarth sengl i ddysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y materion sydd wedi codi a bydd yn parhau i weithio gyda'r ysgol i ddatrys a mynd i'r afael ag unrhyw faterion parhaus i gefnogi'r dysgwyr sydd eisoes wedi cofrestru yn yr ysgol ac sydd wedi'u lleoli yn ei Dosbarth Lles.<br><br>Bydd y pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu gwerthuso ymhellach cyn cyflwyno cynigion diwygiedig ar gyfer darparu lleoedd iechyd a lles emosiynol cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd.<br><br>Er mwyn ateb y galw am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbenigol i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth/cyflwr sbectrwm awtistiaeth, cynigir:<br><br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth/Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth/Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.<br>• sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. |

| **A fydd y polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth yn effeithio ar blant a phobl ifanc? Meddyliwch am ba grwpiau o blant a phobl ifanc y bydd yn effeithio arnyn nhw.** |
|---|
| Mae'r newidiadau arfaethedig yn ymwneud â darpariaeth addysg gynradd ac uwchradd.<br><br>Mae cynigion ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ymwneud â'r cynigion hyn wedi cael eu hystyried y tu allan i'r cynigion hyn. |

**CAM 2: ADEILADU AC ASESU**

| |
|---|
| **Pa erthyglau CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn) sy'n berthnasol i'r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth? Darllenwch yr erthyglau yma ac ychwanegwch unrhyw rai perthnasol at y tabl isod.**<br><br>*Mae'r erthyglau sy'n ffurfio pedair Egwyddor Gyffredinol CCUHP wedi'u rhagosod yn y tabl.*<br><br>*I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth ynglŷn ag Erthyglau CCUHP, e-bostiwch Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk* |
| **Erthygl 2 (peidio â gwahaniaethu):** Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag y bo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, gallu neu unrhyw statws arall, beth bynnag mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, a beth bynnag y bo cefndir ei deulu. |
| **Erthygl 3 (lles gorau'r plentyn):** Rhaid i les gorau'r plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant. |
| **Erthygl 6 (bywyd, goroesiad a datblygiad):** Mae gan bob plentyn yr hawl i fyw. Rhaid i lywodraethau wneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial. |
| **Erthygl 12 (parchu barn y plentyn):** Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ynghylch bob mater sy'n effeithio arno, ac i'r farn honno gael ei hystyried a'i chymryd o ddifri. |
| **Erthygl 23 (plant ag anabledd)**: Mae gan blentyn sydd ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a boddhaol gydag urddas a, chyn belled ag y bo modd, annibyniaeth ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned. |
| **Erthygl 28 (hawl i addysg)**: Mae gan bob plentyn hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau. |
| **Erthygl 29 - (nodau addysg):** Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddi annog parch y plant at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at eu rhieni, eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd |
| |

| |
|---|
| **Beth yw effaith debygol/wirioneddol y cynnig ar hawliau plant? A yw'n gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral?**<br>*(Os asesir effaith negyddol ar gyfer unrhyw faes hawliau neu unrhyw grŵp o blant a phobl ifanc, rhaid i chi restru ac argymell opsiynau i addasu'r cynnig neu liniaru'r effaith.)* |
| Disgwylir i'r effaith ar hawliau plant fod yn gadarnhaol.<br><br>Mae mynediad i addysg yng Nghaerdydd ar sail gyfartal. Mae pob ysgol yn gweithredu'n unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a bydd ysgolion yn parhau i gymhwyso polisïau'r Cyngor ar gyfle cyfartal.<br><br>Byddai'r newidiadau arfaethedig yn rhoi cynnydd graddol yn nifer y lleoedd arbenigol a byddent yn:<br><br>• cefnogi cwricwlwm holistig, galwedigaethol a therapiwtig, gan gynnwys sgiliau bywyd. |

- lleihau'r ddibyniaeth ar leoedd ysgolion annibynnol, ac o bosibl lleoliadau y tu allan i'r sir.
- sicrhau capasiti i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Caerdydd, yn unol â'r strategaeth 'Yn Nes at y Cartref'.
- cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr oed cynradd fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd.
- datblygu cymorth ymhellach i ddisgyblion gynnal cysylltiadau ag addysg brif ffrwd a dychwelyd iddi lle bo hynny'n bosibl.
- creu cysylltiadau cryf rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i gefnogi lleoliadau deuol a phrofiad dysgu cyfoethocach.

Gofynnwyd am farn y plant yr effeithir arnynt (Erthygl 12) fel rhan o'r ymgynghoriad ac fe'i hystyriwyd fel y manylir isod.

**CAM 3: LLAIS A THYSTIOLAETH**

| **Ydych chi wedi chwilio am farn a phrofiadau plant a phobl ifanc, ac wedi'u cynnwys? Beth ydych chi'n ei wybod am farn a phrofiadau plant a phobl ifanc sy'n berthnasol i'r cynnig?** |
|---|
| Ceisiwyd barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig trwy weithgarwch ymgynghori/ymgysylltu a oedd yn briodol i'w hoedran. Manylion yr ymgysylltiad<br>Ceir manylion y gweithgarwch ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a'r safbwyntiau a fynegwyd yn Atodiad 5. |

| **Sut rydych chi'n bwriadu adolygu'r polisi/strategaeth/prosiect/gweithdrefn/gwasanaeth i sicrhau ei b/fod yn parchu, diogelu a chyflawni hawliau plant?**<br>*Rhowch amlinelliad o'r broses fonitro ac adolygu ar gyfer gweithredu a/neu gyflwyno'r cynnig a sut y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses hon.* |
|---|
| Ceisir barn plant a phobl ifanc ar y newidiadau arfaethedig drwy gyfrwng gweithgareddau ymgynghori/ymgysylltu sy'n briodol i'w hoedran a rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r safbwyntiau a fynegwyd fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.<br>Os bydd unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig yn cael eu datblygu, gofynnir am farn plant fel rhan o'r broses weithredu. |

**CAM 4: CYLLIDEB**

| **Beth yw'r gyllideb ar gyfer y cynnig hwn? Oes unrhyw rannau ohoni wedi'u neilltuo'n benodol i blant a phobl ifanc?** |
|---|
| Mae'r goblygiadau ariannol sy'n berthnasol i'r newidiadau arfaethedig wedi'u nodi yn yr adroddiad. |

**CAM 5: CAMAU GWEITHREDU A NODWYD**

| Pa gamau sydd wedi’u nodi neu ba newidiadau a wnaed i'r cynnig o ganlyniad i'r asesiad hwn? |
|---|
| Ceisiwyd barn plant a phobl ifanc y byddai’r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol trwy weithgarwch ymgynghori/ymgysylltu a oedd yn briodol i'w hoedran gyda'r safbwyntiau a fynegwyd yn cael ystyriaeth lawn fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.<br><br>Os bydd unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig yn cael eu datblygu, gofynnir am farn plant fel rhan o'r broses weithredu. |

**Y Camau Nesaf**

Pan ystyrir bod angen Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant, rhaid i chi atodi'r ffurflen wedi'i chwblhau i'r Cabinet neu Adroddiad Penderfyniad y Swyddog. Rhaid hefyd anfon copi drwy e-bost at Dîm Caerdydd sy'n Dda i Blant CaerdyddSynDdaIBlant@caerdydd.gov.uk

# C: Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cysylltwch â Caerdydd Ddwyieithog am unrhyw gymorth wrth gwblhau'r asesiad hwn CaerdyddDdwyieithog@caerdydd.gov.uk

## Safonau'r Gymraeg 88-97

### Safon 88

A fydd y cynnig hwn yn cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** ar y canlynol:

| | Bydd | Na fydd | Dd/B |
|---|---|---|---|
| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? | x | | |
| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | | x | |

| Rhowch fanylion/canlyniadau'r effaith wahaniaethol, a rhowch dystiolaeth ategol, os oes peth. |
|---|
| Byddai'r effaith ar y Gymraeg yn gadarnhaol gyda chynnydd yn nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

### Safon 89

A ellid llunio neu ail-lunio'r cynnig hwn fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu gynyddu effeithiau cadarnhaol, o ran:

| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? |
|---|
| Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynyddu nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? |
|---|
| Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynyddu nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

### Safon 90

A ellid llunio neu ail-lunio'r cynnig hwn i sicrhau nad yw'n cael effeithiau andwyol, neu leihau effaith andwyol, o ran:

| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? |
|---|
| Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynyddu nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? |
|---|
| Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cynyddu nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

**Safon 91**

Wrth ymgynghori ar y cynnig, a ystyriwyd ac a geisiwyd barn ar yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) y byddai'n eu cael o ran:

| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chynhwysol ac ystyriwyd y safbwyntiau a fynegwyd yn briodol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. |

| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? |
|---|
| Dd/B |

**Safon 92**

A wnaeth yr ymgynghoriad geisio a rhoi ystyriaeth i farn ar sut y gallai'r cynnig gael effeithiau cadarnhaol, neu gynyddu effeithiau cadarnhaol, o ran:

| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chynhwysol ac ystyriwyd y safbwyntiau a fynegwyd yn briodol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'r safbwyntiau a fynegwyd ynghylch y Safonau Iaith wedi cael eu nodi a byddant yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol. |

| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? |
|---|
| Dd/B |

**Safon 93**

A wnaeth yr ymgynghoriad geisio a rhoi ystyriaeth i farn ar sut y gallai'r cynnig osgoi effeithiau andwyol, neu leihau effeithiau andwyol, o ran:

| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? |
|---|
| Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn a chynhwysol ac ystyriwyd y safbwyntiau a fynegwyd yn briodol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae'r safbwyntiau a fynegwyd ynghylch y Safonau Iaith wedi cael eu nodi a byddant yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol.<br><br>Cydnabyddir y gallai plant sy'n cael mynediad i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg orfod teithio ymhellach gan fod llai o ysgolion cyfrwng Cymraeg nag ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd. |

| |
|---|
| Fel y nodir yn y CSCA, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu nifer a dosbarthiad lleoedd anghenion dysgu ychwanegol ar draws y sector, monitro ceisiadau am drosglwyddo o ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg i rai cyfrwng Saesneg a datblygu gwell dealltwriaeth o bryderon ynghyd â sicrwydd a chymorth priodol gyda'r bwriad o ailystyried aros.<br><br>Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant rhwng y cartref a'r ysgol.<br><br>Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf ac i ddisgyblion uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf, fel y mesurir yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.<br><br>Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael yr un cymorth gyda thrafnidiaeth ag a gaiff pawb ar draws Caerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd. Gweler polisi trafnidiaeth y Cyngor ar wefan y Cyngor: www.caerdydd.gov.uk |

| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** |
|---|
| Dd/B |

**Safon 94**

Os yw'r cynnig yn cynnwys dyfarnu grantiau, a ystyriwyd y canllawiau a gyflwynwyd ym Mholisi Cyngor Caerdydd ar Ddyfarnu Grantiau mewn Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg o ran:

| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?** |
|---|
| Dd/B |

| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** |
|---|
| Dd/B |

**Safon 95**

Os cafodd ymchwil ei gwneud neu ei chomisiynu i gynorthwyo â datblygu'r cynnig, a oedd yn ystyried a fyddai'n cael **effaith wahaniaethol [gadarnhaol/negyddol]** o ran:

| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?** |
|---|
| Byddai'r effaith ar y Gymraeg yn gadarnhaol gyda chynnydd yn nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?** |
|---|
| Dd/B |

**Safon 96**

A wnaeth yr ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo â datblygu'r cynnig roi ystyriaeth i sut y gallai gael effaith gadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, o ran:

| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? |
| --- |
| Byddai'r effaith ar y Gymraeg yn gadarnhaol gyda chynnydd yn nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? |
| --- |
| Dd/B |

**Safon 97**

A wnaeth yr ymchwil a wnaed neu a gomisiynwyd i gynorthwyo â datblygu'r cynnig roi ystyriaeth i sut y gallai gael effaith andwyol, neu leihau effeithiau andwyol, o ran:

| Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? |
| --- |
| Byddai'r effaith ar y Gymraeg yn gadarnhaol gyda chynnydd yn nifer y lleoedd anghenion dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg. |

| Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? |
| --- |
| Dd/B |

**Deunyddiau a Gwasanaethau**

Yn ogystal â'r asesiad effaith i sicrhau bod y cynnig yn ateb gofynion Safonau'r Gymraeg, rhaid ystyried hefyd y deunyddiau a'r gwasanaethau ategol allai fod eu hangen.

Mae'r rhain yn cynnwys (cliciwch ar y hyperddolenni i weld gwybodaeth fanwl am y gofynion sydd o dan Safonau'r Gymraeg):

- Gohebiaeth - derbyn ac ateb (negeseuon e-bost, llythyrau, cyfathrebu ar-lein).
- Ffôn - derbyn ac ateb galwadau.
- Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus - cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus, cyfarfodydd grŵp, ymgynghori, cyfarfodydd unigol.
- Negeseuon Cyhoeddus – electronig – fideo
- Arwyddion, Hysbysiadau a Deunydd Arddangos
- Cyhoeddusrwydd a Hysbysebu
- Cynhyrchu Dogfennau Cyhoeddus - polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol, cynlluniau corfforaethol, canllawiau, hysbysiadau, codau ymarfer, papurau ymgynghori, trwyddedau, tystysgrifau, rheolau, llyfrynnau, taflenni, pamffledi neu gardiau, tocynnau / talebau.
- Cynhyrchu Ffurflenni
- Gwasanaethau Derbynfa
- Gwefannau, Apiau a Gwasanaethau Ar-lein
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Peiriannau Hunan-wasanaeth
- Cyrsiau Hyfforddiant Addysg
- Cyhoeddiadau Cyhoeddus

| **A yw'r holl ddeunyddiau a gwasanaethau ategol yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg?** |
| --- |
| Mae'r holl ddeunyddiau a gwasanaethau ategol yn cydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg. |

**Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg Cyngor Caerdydd**

Gellir gweld y strategaeth hon yma ac mae dogfennau cyfarwyddyd ychwanegol wedi eu cynhyrchu i gefnogi ei gweithrediad:

- Asesu Sgiliau Cymraeg a Nodi Rolau Cymraeg Hanfodol
- Gweithdrefnau Recriwtio, Dethol a Chyfweld a'r Gymraeg.

| **A oes gennych fynediad i ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi cyflawni'r cynnig wrth gydymffurfio â gofynion safonau'r Gymraeg?** |
| --- |
| Oes |

**Y Camau Nesaf**

Pan ystyrir bod angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, rhaid i chi atodi'r ffurflen wedi'i chwblhau i'r Cabinet neu Adroddiad Penderfyniad y Swyddog. Rhaid hefyd anfon copi drwy e-bost at Caerdydd Ddwyieithog CaerdyddDdwyieithog@caerdydd.gov.uk

# D: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

| | Bydd | Na fydd |
|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn effeithio ar safle Ewropeaidd wedi'i ddynodi oherwydd ei ddiddordeb cadwraeth natur*, neu lywio datblygiad tuag at ardal sy'n cynnwys safle Ewropeaidd, neu'n effeithio'n anuniongyrchol ar safle Ewropeaidd? | ☐ | ☒ |

** Dim ond dau safle Ewropeaidd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu diddordeb cadwraeth natur sydd i'w cael o fewn ffiniau Caerdydd - Aber Afon Hafren a Choed Ffawydd Caerdydd, ond byddwch yn ymwybodol os yw'ch prosiect yn effeithio ar ardal sy'n agos at awdurdod cyfagos.*

Os mai 'Bydd' yw'r ateb, yna efallai y bydd angen cynnal ymarfer sgrinio i benderfynu a oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ai peidio.

Cysylltwch â'r Tîm Bioamrywiaeth a fydd yn eich tywys drwy'r broses.

# E: Asesiad Amgylcheddol Strategol

| | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| A yw'r strategaeth, polisi neu weithgaredd yn gosod y fframwaith ar gyfer caniatâd datblygu yn y dyfodol? | ☐ | ☒ |

| | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| A yw'r strategaeth, polisi neu weithgaredd yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol (cadarnhaol neu negyddol)? | ☐ | ☒ |

Os ydych wedi ateb 'Ydy' i'r ddau gwestiwn uchod, yna mae angen Sgriniad Asesiad Amgylcheddol Strategol llawn.

Cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy a fydd yn eich tywys drwy'r broses.

## F: Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data

| | Bydd | Na fydd |
|---|---|---|
| A fydd y cynnig yn cynnwys prosesu gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unigolion? | ☒ | ☐ |

Os mai 'Bydd' yw'r ateb, yna efallai y bydd angen Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data.

Cliciwch yma i ddarllen y canllawiau a dechrau'r broses Asesiad o’r Effaith ar Ddiogelu Data os oes angen.

Cysylltwch â’r Gwasanaeth Diogelu Data i gael rhagor o wybodaeth.

# G: Asesiad o’r Effaith ar Iechyd

Mae Asesiad o’r Effaith ar Iechyd yn helpu i ddatblygu polisïau a phrosiectau sy'n ystyried iechyd meddwl, corfforol a chymdeithasol a lles poblogaeth wrth gynllunio a datblygu. Mae ystyried anghydraddoldebau iechyd a'u heffeithiau ar gymunedau lleol yn rhan hanfodol o unrhyw Asesiad o’r Effaith ar Iechyd.

Daw Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd yn ofyniad statudol i gyrff cyhoeddus mewn amgylchiadau penodol yn y dyfodol. Nid yw'r amgylchiadau hyn wedi'u cyhoeddi eto gan Lywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth a chyngor, cysylltwch ag Uned Gymorth AEI Cymru.

Gwefan: Hafan - Uned Cefnogi Asesiadau o’r Effaith ar Iechyd Cymru (phwwhocc.co.uk)

E-bostiwch: WHIASU.PublicHealthWales@wales.nhs.uk